



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Gorfodi gwaharddiadau a chyfyngiadau ar gynhyrchion plastig untro penodol

Cynigion i wneud rheoliadau ar gyfer sanctiynau sifil o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

Dyddiad cyhoeddi: 17 Ebrill 2023  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 9 Mehefin 2023

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.  
This document is also available in Welsh.



**Trosolwg** Rydym yn newid i economi gylchol i sicrhau nad ydym yn defnyddio mwy nag sy'n deg o adnoddau'r byd. Mae lleihau faint o'r cynhyrchion plastig untro hynny, sy'n peri cymaint o broblemau, yr ydym yn eu defnyddio yn rhan hanfodol o'r broses hon. Rydym hefyd yn ceisio sicrhau bod Cymru yn rhydd rhag sbwriel. Yn rhan o wneud hyn, mae angen inni weithio tuag at gael gwared ar y cynhyrchion plastig untro hynny sy'n cael eu sbwriela mor rheolaidd. Byddem yn croesawu eich barn ar ein cynlluniau i gyflawni hyn drwy ddefnyddio sanctsiynau sifil i orfodi gwaharddiadau a chyfyngiadau ar nifer o gynhyrchion plastig untro, sy'n cael eu sbwriela yn rheolaidd ac yn cyrraedd ein hafonydd, ein moroedd a'n traethau.

**Sut i ymateb** Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy ateb y cwestiynau ar y ffurflen sydd ar gael yn [www.llyw.cymru/ymgyngoriadau](http://www.llyw.cymru/ymgyngoriadau). Cewch hefyd gyflwyno ymatebion a gwneud sylwadau drwy'r post neu e-bost. Mae'r manylion cyswllt isod.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** Mae'r ddogfen hon ar gael yn [www.llyw.cymru/ymgyngoriadau](http://www.llyw.cymru/ymgyngoriadau). Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill ar gais.

**Manylion cyswllt** I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:  
Is-adran Ansawdd yr Amgylchedd  
Llywodraeth Cymru  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
  
E-bost: [bilcynhyrchionplastiguntro@llyw.cymru](mailto:bilcynhyrchionplastiguntro@llyw.cymru)

**This document is also available in English** [www.gov.wales/consultations](http://www.gov.wales/consultations)

**ISBN** 978-1-80535-802-2

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddir gennych fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn prosesu'r wybodaeth bersonol hon, yn unol â'u pwerau statudol, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb rydych yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw, neu staff sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi ymatebion i ymgynghoriadau ymhellach, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud o dan contract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'i gadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal mewn modd priodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os bydd eich manylion yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am gyfnod heb fod yn fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- cael gwybod am y data personol a gedwir andanoch a'i weld
- gofyn inni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- (o dan rai amgylchiadau) gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) gofyn i'ch data gael ei 'ddileu'
- (o dan rai amgylchiadau) gofyn inni drosglwyddo eich data i gorff arall
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu er mwyn arfer eich hawliau o dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

E-bost:  
[swyddogdiogeludata@llyw.cymru](mailto:swyddogdiogeludata@llyw.cymru)

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

Dyma'r manylion ar gyfer cysylltu â  
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Tabl Cynnwys

<b>Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?</b> .....	7
Cyflwyno rheoliadau ar gyfer sancsiynau sifil.....	7
<b>Gorfodi</b> .....	8
Pam mae angen gorfodi? .....	8
Pwy yw'r rheoleiddiwr?.....	8
<b>Y Cynigion</b> .....	9
Sancsiynau Sifil.....	9
Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 .....	9
Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni) (Cymru) 2018.....	10
Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwellt, Ffyn Cotwm a Throellwyr Plastig (Lloegr) 2020 .....	10
Rheoliadau gwastraff arfaethedig .....	10
<b>Y dull a gynigir gennym ar gyfer rheoliadau sancsiynau sifil</b> .....	12
A – Gofynion yn ôl Disgresiwn .....	12
B – Hysbysiadau Stop.....	15
C – Ymgymeriadau Gorfodi.....	17
Achos Troseddol .....	18
<b>Gweinyddu ac Apeliadau</b> .....	18
Apelau.....	19
<b>Costau ac Effeithiau</b> .....	21
<b>Safonau'r Gymraeg</b> .....	24
<b>Y camau nesaf</b> .....	25
<b>Atodiad 1 Ffurflen ymateb i'r Ymgynghoriad</b> .....	26

## Cefndir

1. Y tro cyntaf i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei bwriad i wahardd neu gyfyngu ar y cynhyrchion plastig untro hynny sydd cael eu sbwriela mor rheolaidd oedd yn ystod yr ymgynghoriad ar ei chynigion ym mis Hydref 2020. Roedd y gwaharddiadau hyn yn cael eu datblygu mewn ymateb i'r pryderon cynyddol ynghylch effaith niweidiol llygredd plastig ar ein bywyd gwyllt a'n hamgylchedd. Daeth dros 3,500 o ymatebion i law. Roedd y rhan fwyaf ohonynt o blaid cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd, gyda llawer yn annog Llywodraeth Cymru i fynd ymhellach. Mae'r ymgynghoriad ag ymateb Llywodraeth Cymru ar gael [yma](#).
2. O ganlyniad, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) ('y Bill') yn y Senedd ar 20 Medi 2022. Roedd y Bil yn destun proses graffu Senedd Cymru; mae rhagor o fanylion sesiynau tystiolaeth a thrafodaethau'r Pwyllgor ar wefan [Senedd Cymru](#)
3. Ar 6 Rhagfyr 2022 pleidleisiodd mwyafrif llethol o'r Senedd dros y Bil, ac mae bellach yn aros am Gydsyniad Brenhinol cyn y gall ddod yn Ddeddf. Rydym yn disgwyl i hyn ddigwydd ym mis Mehefin 2023. Gallwch weld y Bil [yma](#).
4. Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i baratoi ar gyfer dechrau'r gwaharddiadau yn yr hydref. Pan fydd y gwaharddiadau ar waith bydd yn drosedd cyflenwi neu gynnig i gyflenwi (gan gynnwys am ddim) i ddefnyddwyr y cynhyrchion plastig untro a restrir yng nghlofn 1 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Bil.
5. Dim ond y canlynol sy'n gallu cyflawni drosedd o dan adran 5 o'r Bil:
  - corff corfforedig (gan gynnwys corff sy'n arfer unrhyw swyddogaeth gyhoeddus);
  - partneriaeth;
  - cymdeithas anghorfforedig nad yw'n bartneriaeth; neu
  - unigolyn sy'n gweithredu fel unig fasnachwr.
6. Yn y Bil mae 'defnyddiwr' yn golygu unigolion sy'n gweithredu at ddibenion sy'n hollol neu'n bennaf y tu allan i fasnach, busnes neu broffesiwn yr unigolion hwnnw.
7. Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn cynnwys sancsiynau troseddol yn unig (adran 6), a gallai unigolyn yr amheuir ei fod wedi cyflawni trosedd fod yn destun treial yn Llys yr Ynadon. Os ceir yr unigolion yn euog o'r drosedd, caiff y llys roi dirwy ddiderfyn.
8. Er ein bod yn credu bod hyn yn effeithiol o ran atal troseddau, rydym yn credu y dylai'r awdurdodau lleol yng Nghymru, fel y rheoleiddiwr, fod â mynediad at sancsiynau effeithiol sy'n hyblyg ac yn gymesur ac sy'n sicrhau bod yr amgylchedd ac iechyd pobl yn cael eu diogelu wrth fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio.
9. Er mwyn gwneud hyn, cafodd pwerau eu cynnwys yn adran 17 o'r Bil i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno rheoliadau sy'n darparu ar gyfer gwneud sancsiynau sifil mewn perthynas â throseddau a grëwyd o dan adran 5 o'r Bil. Mae'r pŵer hwn yn cyfateb i'r hyn sydd yn Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoliadau a Chosbau 2008 (p.13) ('RESA').

## Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

### Cyflwyno rheoliadau ar gyfer sancsiynau sifil

10. Er mwyn sefydlu cyfundrefn orfodi amgen i gefnogi'r gwaharddiadau, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael yn adran 17 o'r Bil, a chyflwyno rheoliadau sy'n darparu ar gyfer sancsiynau sifil (h.y. annhroseddol) mewn perthynas â throseddau a grëwyd o dan adran 5 o'r Bil. Bydd y rheoliadau hyn yn dod i rym cyn i'r gwaharddiadau gael eu rhoi ar waith, a darperir canllawiau i helpu pobl i'w defnyddio.
11. I helpu i ddatblygu ein polisi sancsiynau sifil a'r rheoliadau, hoffem glywed eich barn ar ein dull arfaethedig. O dan adran 17 o'r Bil mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol:
  - a) y rheoleiddiwr y mae'r rheoliadau hyn yn ymwneud ag ef (awdurdodau lleol Cymru yn yr achos hwn)
  - b) sefydliadau sydd, ym marn Llywodraeth Cymru, yn cynrychioli unigolion y mae'r cynigion yn cael effaith sylweddol arnynt, ac
  - c) unrhyw un arall fel sy'n briodol ym marn yr awdurdod perthnasol.
12. Am fod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar yr agweddau technegol a gweithredol ar ddefnyddio sancsiynau sifil, rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn dod o'r awdurdodau lleol yn eu rôl fel y rheoleiddiwr. O ganlyniad rydym wedi pennu cyfnod o wyth wythnos ar gyfer yr ymgynghoriad, yn hytrach na'r 12 wythnos arferol, i adlewyrchu natur benodol y pwnc.
13. Fodd bynnag, i sicrhau bod ein cynigion yn cyflawni'r cydbwysedd priodol rhwng darparu cyfundrefn orfodi hyblyg a sicrhau cydymffurfedd, hoffem glywed barn amrediad eang o sectorau, yn enwedig y rhai y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'r gyfraith.
14. Yn y ddogfen hon byddwn yn amlinellu'r dull a ffefrir gennym ar gyfer y rheoliadau, a'r sail resymegol ar gyfer y penderfyniadau rydym wedi'u gwneud. Mae cyfres o gwestiynau wedi cael eu cynnwys i helpu i ganolbwyntio ymatebion – fodd bynnag, rydym yn croesawu unrhyw farn neu adborth ar ein cynigion.

## Gorfodi

### Pam mae angen gorfodi?

15. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod llawer o fusnesau yn cydymffurfio â'r rheoliadau amgylcheddol presennol, a bod y mwyafrif yn gwneud pob ymdrech i wneud hynny. Fodd bynnag, gall y rhai sy'n anwybyddu'r gyfraith roi'r amgylchedd mewn perygl, neu beri difrod iddo hyd yn oed. Yn ei dro mae hyn yn gallu cael effaith negyddol ar ansawdd ein bywyd, a thanseilio busnesau sy'n gweithredu yn unol â'r gyfraith, drwy roi mantais annheg i'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio.
16. Prif nod ein cynigion gorfodi yw sicrhau bod pobl yn cydymffurfio â'r gyfraith ac atal niwed yn y lle cyntaf. Rydym yn cydnabod bod llawer o awdurdodau lleol yn aml yn ceisio datrys unrhyw achosion o dorri'r gyfraith drwy drafod cydymffurfedd mewn modd adeiladol. Bwriad darparu sancsiynau sifil yw rhoi offerynnau ychwanegol i awdurdodau lleol pan fydd trafodaethau o'r fath wedi methu, ond ystyrir bod sancsiynau troseddol yn anghymesur. Drwy ddarparu amrediad o sancsiynau sifil, bydd awdurdodau lleol yn gallu defnyddio dull graddol wrth ei gwneud yn ofynnol i'r fusnes gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Bil.

### Pwy yw'r rheoleiddiwr?

17. Mae adran 7 o'r Bil yn darparu ar gyfer gorfodi gan awdurdodau lleol.
18. Am fod gan awdurdodau lleol amrediad o swyddogaethau rheoleiddiol, gan gynnwys y rhai o dan ddeddfwriaeth yr amgylchedd a deddfwriaeth defnyddwyr, cytunwyd mai nhw fyddai yn y sefyllfa orau i orfodi'r gwaharddiadau. O ganlyniad, mae'r Bil yn cynnwys amrediad o bwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol i'w helpu i weithredu'r gwaharddiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Y pŵer i wneud pryniadau prawf (adran 8)
  - Pŵer mynediad (adrannau 9 – 12)
  - Pŵer arolygu (adran 13)
19. Mae is-adan (2) o adran 7 yn egluro bod unrhyw gyfeiriad yn y Bil at swyddog awdurdodedig awdurdod lleol yn cynnwys unrhyw berson sydd wedi derbyn awdurdod gan yr awdurdod lleol – er enghraifft, cwmni gorfodi preifat.



# Y Cynigion

## Sanctsiynau Sifil

20. Mae'r pwerau o dan adran 17 yn caniatáu ar gyfer gwneud y sanctsiynau sifil canlynol ar gael i awdurdodau lleol:

- **Cosbau ariannol penodedig** – *mae'r rhain yn gosbau penodedig cymharol isel y caiff y rheoleiddiwr eu rhoi am fân drosedd benodol. Mae cosb ariannol benodedig yn sanctsiwn sifil annibynnol, ac ni ellir ei defnyddio ar y cyd ag unrhyw sanctsiwn arall.*
- **Gofynion yn ôl disgrisiwn** – gall hyn gynnwys defnyddio cosbau ariannol amrywiadwy a hysbysiadau cydymffurfio. Mae cosbau ariannol amrywiadwy yn ei gwneud yn ofynnol i droseddwr dalu swm a bennir gan y rheoleiddiwr sy'n adlewyrchu amgylchiadau'r drosedd. Mae hysbysiadau cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i droseddwr gymryd camau gweithredu penodol o fewn cyfnod penodol i sicrhau nad yw'r drosedd yn parhau nac yn ailddigwydd.
- **Hysbysiadau stop** – mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn roi'r gorau i gyflawni gweithgaredd a ddisgrifir yn yr hysbysiad nes iddo gymryd camau i gydymffurfio unwaith eto.
- **Ymgymeriadau gorfodi** – mae'r rhain yn galluogi unigolyn, y mae rheoleiddiwr yn credu'n rhesymol ei fod wedi cyflawni trosedd, i roi ymgymeriad (addewid) i'r rheoleiddiwr y bydd yn cymryd un neu fwy o'r camau a nodir yn yr ymgymeriad er mwyn unioni'r sefyllfa.

21. I ddewis y math o sanctsiynau sifil a ddylai fod ar gael i awdurdodau lleol i'w helpu i sicrhau cydymffurfedd â'n gwaharddiadau ar gynhyrchion plastig untro, gwnaethom ystyried y dulliau a ddefnyddir ar gyfer rheoliadau diogelu'r amgylchedd eraill yng Nghymru. Y prif rai oedd Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 ('Rheoliadau SUCB'), sydd ar gael yn [Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro \(Cymru\) 2010](#) a Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni) (Cymru) 2018 ('Rheoliadau Microbelenni'), sydd ar gael yn [Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd \(Microbelenni\) \(Cymru\) 2018](#). Hefyd ystyriwyd y dull a gafodd ei fabwysiadu yn Lloegr mewn perthynas â Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwellt, Ffyn Cotwm a Throellwyr Plastig) (Lloegr) 2020.

## Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010

22. Mewn perthynas â Rheoliadau SUCB a sanctsiynau sifil, mae gan awdurdodau lleol yr hawl i naill ai roi cosb ariannol benodedig (gyda gostyngiad am dalu'n gynnar a chosb am dalu'r hwyr); cosb ariannol amrywiadwy ac iddi derfyn uchaf (gyda gostyngiad am dalu'n gynnar a chosb am dalu'n hwyr); neu hysbysiad cydymffurfio. Defnyddir y sanctsiynau hyn i ymdrin ag achosion o dorri'r rheoliadau, pan fydd gwerthwr naill ai yn methu codi tâl am SUCB neu'n methu gwneud, cadw, darparu a chyhoeddi cofnodion.

23. Gellir rhoi cosb ariannol benodedig o £200 am fethu codi tâl, a chosb o £100 mewn perthynas â chadw cofnodion. O ran cosbau ariannol amrywiadwy, mae'r swm yn cael ei bennu gan y rheoleiddiwr, ond yr uchafswm yw £5,000 am fethu codi tâl neu mewn perthynas â chadw cofnodion, ac £20,000 am roi gwybodaeth anwir.

### Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni) (Cymru) 2018

24. Roedd y sancsiynau sifil a oedd yn cael eu defnyddio i orfodi Rheoliadau Microbelenni yn defnyddio dull ehangach, ac yn cynnwys defnyddio amrediad o ofynion yn ôl disgrisiwn (cosbau ariannol amrywiadwy a hysbysiadau cydymffurfio), ymgymeriadau gorfodi a hysbysiadau stop.

25. Y rheoleiddiwr oedd yn pennu swm y gosb ariannol amrywiadwy. Fodd bynnag, y terfyn uchaf am beidio â chydymffurfio â'r gwaharddiad oedd £5,000, gyda chosb uwch, oherwydd natur y drosedd, o £20,000 am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol, neu am rwystro swyddog gorfodi rhag gwneud ei waith neu fethu â'i gynorthwyo.

### Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwellt, Ffyn Cotwm a Throellwyr Plastig) (Lloegr) 2020

26. Er bod diogelu'r amgylchedd yn fater datganoledig, rydym hefyd wedi ystyried y dulliau a ddefnyddir yn rhannau eraill y DU. Yn Lloegr, cafodd rheoliadau eu cyflwyno yn 2020 a oedd yn gwahardd neu'n cyfyngu ar gyflenwi gwellt, ffyn cotwm a throellwyr plastig. Er mwyn gorfodi'r rheoliadau hyn, cafodd dull tebyg ei fabwysiadu i'r dull wedi'i fabwysiadu o dan Rheoliadau Microbelenni h.y. gofynion yn ôl disgrisiwn (sef cosbau ariannol amrywiadwy a hysbysiadau cydymffurfio), hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi.

### Rheoliadau gwastraff arfaethedig

27. Yn hwyrach eleni, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i fusnesau, y sector cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector i ddioli eu gwastraff yn barod i'w hailgylchu, fel y mae cartrefi eisoes yn gwneud. Gallwch weld yr ymgynghoriad [yma](#) a rhagor o wybodaeth [yma](#).

28. Roedd yr ymgynghoriad (a ddaeth i ben ar 15 Chwefror 2023) yn cynnig bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorfodi'r holl ofynion ar wahân i'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd, a bod awdurdodau lleol yn gorfodi'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd o safle annomestig. Mae'r gyfundrefn orfodi yn cynnwys sancsiynau sifil. Bydd cosbau sifil yn caniatáu i'r rheoleiddwyr wahaniaethu rhwng y rhai sy'n gwneud pob ymdrech i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r rhai sy'n diystyru'r gyfraith. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn galluogi'r rheoleiddiwr i gyflwyno amrywiaeth o sancsiynau gan ddibynnu ar amgylchiadau'r drosedd.

29. Yn ogystal, mae gan Awdurdodau Lleol bwerau presennol, o dan adran 33ZB o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd, i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig am droseddau sy'n ymwneud â daliedyddion gwastraff. Gallant ddefnyddio'r rhain pan fydd ganddynt reswm dros gredu bod rhywun wedi cyflawni trosedd dyddodi

gwastraff. Caiff rheoleiddiwr hefydd ddefnyddio pwerau mynediad, chwilio neu ymafael, neu ofyn am wybodaeth.

30. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoleiddio'r holl ofynion ar wahân i'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd. Bydd awdurdodau lleol yn rheoleiddio'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd o eiddo annomestig.
31. Bydd y rheoliadau gwastraff yn defnyddio cyfres o sancsiynau sifil i orfodi cydymffurfedd, fel y darperir ar eu cyfer yn RESA, yn debyg i'r rhai a ddefnyddir gan reoliadau diogelu'r amgylchedd presennol. Os yw unigolyn yn methu cydymffurfio â sancsiwn sifil, gellir cyflwyno achos troseddol yn erbyn y troseddwr.
32. Y sancsiynau sifil a gynigir ar gyfer y rheoliadau gwastraff yw cosbau ariannol benodedig, cosbau ariannol amrywiadwy a hysbysiadau stop (gwelir isod am ragor y fanylion ynghylch y prosesau hyn, er gwybodaeth yn unig). Bydd y gosb ariannol benodedig yn £300 neu £500 yn dibynnu ar natur y drosedd.
33. Y rheoleiddiwr fydd yn pennu lefel y gosb ariannol amrywiadwy, gan adlewyrchu amgylchiadau'r drosedd. Cyhoeddir canllawiau ar ddefnyddio cosbau ariannol amrywiadwy, a fydd yn cynnwys gwybodaeth am amgylchiadau lle mae cosb o'r fath yn debygol o gael ei rhoi, a'r materion sy'n debygol o gael eu hystyried gan y rheoleiddwyr wrth benderfynu ar swm y gosb. Cyn cyflwyno cosb ariannol amrywiadwy, gall y rheoleiddiwr ei gwneud yn ofynnol i'r troseddwr ddarparu gwybodaeth o'r fath fel sy'n rhesymol er mwyn pennu swm unrhyw fudd ariannol sy'n codi o ganlyniad i'r drosedd honno.

## Y dull a gynigir gennym ar gyfer rheoliadau sancsiynau sifil

34. Ar ôl ystyried y rheoliadau uchod (gan gynnwys ystyried sut mae'r troseddau'n cymharu â'n gwaharddiadau newydd); sut mae'r gwahanol gyfundrefnau sancsiynau sifil yn gweithredu, ac opsiynau gorfodi eraill, rydym yn cynnig sicrhau bod y canlynol ar gael ar gyfer y troseddau yn y Bil:

- A. Gofynion yn ôl disgrisiwn – cosb ariannol amrywiadwy neu hysbysiadau cydymffurfio
- B. Hysbysiadau stop
- C. Ymgymeriadau gorfodi

35. Mae RESA yn caniatáu i reoleiddwyr ddefnyddio cyfuniad o'r sancsiynau sifil ar gyfer gorfodi.

36. Isod mae trosolwg o sut mae pob sancsiwn yn gweithio, ynghyd â'n rhesymau dros ei ddewis.

### A – Gofynion yn ôl Disgrisiwn

37. Cyn y gall awdurdod lleol gyflwyno gofyniad yn ôl disgrisiwn (hysbysiad cydymffurfio neu gosb ariannol amrywiadwy) rhaid i'r rheoleiddiwr fod yn siŵr y tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol fod yr unigolyn wedi cyflawni'r drosedd.

### Hysbysiad Cydymffurfio

38. Pan fydd trosedd yn cael neu wedi cael ei chyflawni, byddwn yn annog y rhai sydd wedi cyflawni'r drosedd, yn y lle cyntaf, i drafod â'r awdurdod lleol ynghylch sut y gallant unioni'r broblem a sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Fel y nodwyd yn flaenorol yn y ddogfen hon, mae'r dull hwn yn cyd-fynd yn agos iawn â'r dull sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol Cymru, ac mae'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, os nad yw'r trafodaethau hyn yn llwyddo i ddatrys y broblem, rydym yn credu y dylai'r rheoleiddiwr fod â'r opsiwn i annog cydymffurfedd heb yr angen i roi cosb ariannol (pan ystyrir bod gwneud hynny'n briodol). Ar gyfer senarios o'r fath, rydym yn bwriadu rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol roi hysbysiad cydymffurfio.

39. Bwriad hysbysiad cydymffurfio yw unioni problem benodol, a bydd yn dweud wrth fusnes beth yw'r camau mae angen eu cymryd i wneud hynny. Mewn perthynas â'r drosedd hon gallai, er enghraifft, arwain at awdurdod lleol yn cyhoeddi hysbysiad cydymffurfio a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i fusnes gael gwared ar gynnyrch gwaharddedig o'i silffoedd. Gallai'r hysbysiad cydymffurfio amlinellu amserlen benodol ar gyfer cymryd y camau hynny, er mwyn cydymffurfio â'r rheolau a sicrhau nad yw'r drosedd yn parhau nac yn ail-ddigwydd.

**Cwestiwn 1. A ydych yn cytuno â defnyddio hysbysiadau cydymffurfio?  
Rhowch eich Rhesymau.**

Cosbau Ariannol Amrywiadwy

40. Er y gellir rhoi dirwy o dan y Bil am drosedd drwy'r llysoedd, rydym yn credu pan fydd trosedd wedi cael ei chyflawni, y dylai'r rheoleiddiwr allu rhoi cosb ariannol o dan y gyfundrefn sancsiynau sifil am achosion mwy difrifol o ddiffyg cydymffurfio. Rydym yn credu bod rhoi cosb yn dileu'r budd o dorri'r rheolau ac yn atal rhywun rhag peidio â chydymffurfio â nhw yn y dyfodol, wrth leihau'r baich ar system y llysoedd.
41. Drwy gynnig cosb amrywiol yn hytrach nag un benodedig, rydym yn credu y bydd hyn yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i awdurdodau lleol i ymdrin ag unrhyw achos o dorri'r gyfraith. Mae'r paramedrau y byddem yn disgwyl i reoleiddiwr eu hystyried wrth bennu cosb briodol fel a ganlyn:
- maint y busnes;
  - maint y drosedd;
  - yr effaith ar yr amgylchedd;
  - i ba raddau y bydd y person yn elwa'n ariannol ar y drosedd; ac
  - unrhyw faterion perthnasol eraill.
42. Ni chaiff swm y gosb ariannol amrywiadwy am droseddau na ellir eu clywed ond mewn llys yr ynadon (pan ymdrinnir â nhw drwy'r system droseddol) fod yn uwch na'r uchafswm cosb y gallai ynadon ei rhoi. Yn achos y Bil, ni roddwyd terfyn uchaf. O ganlyniad, nid oes gofyniad i bennu terfyn mewn perthynas â'r gosb ariannol amrywiadwy.
43. O ystyried y potensial i droseddau gael eu cyflawni ar raddfeydd amrywiol (er enghraifft, mae'n annhebygol y bydd busnes bach annibynnol yn cyflenwi cynnyrch gwaharddedig ar raddfa cadwyn archfarchnadoedd fawr), rydym hefyd yn cynnig peidio â gosod terfyn uchaf mewn perthynas â chosbau ariannol amrywiadwy. Rydym yn credu y bydd hyn yn galluogi ystyried toriadau fesul achos, ac adlewyrchu natur a maint y drosedd.
44. Drwy beidio â phennu terfyn uchaf, rydym yn credu bod hyn yn darparu digon o fesurau atal ar draws amrediad o fusnesau, ac yn helpu i gyflawni nod y Bil i leihau sbwriela cynhyrchion plastig untro, gan annog gwerthwyr i ystyried cynhyrchion amgen ac, yn y pen draws, diogelu ein hamgylchedd.
45. Rhaid i dderbyniadau gan sancsiynau sifil – gan gynnwys o gosbau ariannol – gael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru pan fydd gan yr awdurdod lleol swyddogaethau mewn perthynas â Chymru yn unig, fel sy'n wir am y rheoliadau y gynigir.
46. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer busnesau, a byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol ystyried y canllawiau hynny pan fyddant yn llunio eu polisiau

gorfodi mewn perthynas â throseddau o dan y Bil. O dan RESA, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu canllawiau gorfodi ar wahân ar gyfer eu swyddogion, i ddarparu canllaw ar gyfer pennu lefel y gosb i'w rhoi.

**Cwestiwn 2. A yw'r cynnig i ganiatáu i reoleiddwyr roi cosbau ariannol amrywiadwy yn rhesymol? Rhowch eich rhesymau ac, os yw hynny'n briodol, awgrymu dull amgen. Cyfeiriwch at gyfundrefnau cymharol os yw hynny'n briodol.**

**Cwestiwn 3. A ydych yn cytuno na ddylid pennu terfyn uchaf ar gyfer cosbau ariannol amrywiadwy? Rhowch eich rhesymau (ac awgrymu terfyn uchaf os ydych yn credu bod hynny'n briodol).**

**Cwestiwn 4. A ydych yn cytuno â'n penderfyniad i beidio â chynnwys cosbau ariannol penodedig yn ein rheoliadau? Rhowch eich rhesymau.**

47. Mae amryw ofynion a phrosesau'n gysylltiedig â defnyddio'r gofynion yn ôl disgrisiwn hyn. Gan fod y rhain yn weithdrefnau penodol mewn perthynas â sancsiwn sifil penodol, nid ydym yn ceisio barn ar yr agwedd hon o'r rheoliadau. Fodd bynnag, er gwybodaeth yn unig, dyma'r mesurau:

### **Hysbysiad o Fwriad**

Cyn cyflwyno hysbysiad cydymffurfio neu gosb ariannol amrywiadwy, bydd y rheoleiddiwr yn cyflwyno hysbysiad a fydd yn nodi pa gamau gweithredu y mae'n eu cynnig – sef hysbysiad o fwriad.

Rhaid i hysbysiad o fwriad gynnwys sail dros gyflwyno hysbysiad cydymffurfio neu gosb ariannol amrywiadwy, gofynion yr hysbysiad cydymffurfio ac, os yw'n berthnasol, y gosb i'w thalu.

Bydd yr hysbysiad hefyd yn rhoi gwybodaeth am yr hawl i gyflwyno sylwadau neu wrthwynebiadau i'r rheoleiddiwr o fewn 28 o ddiwrnodau.

Rhaid i'r hysbysiad o fwriad hefyd ganiatáu i'r unigolyn y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo gynnig ymgymeriad er budd unrhyw unigolyn yr effeithiwyd arno gan y drosedd, a rhaid i'r rheoleiddio ystyried hynny wrth wneud ei benderfyniad – gelwir hyn yn ymgymeriad trydydd parti. Er enghraifft, pe bai rheoleiddiwr o'r farn y dylid rhoi cosb ariannol amrywiadwy, gallai'r unigolyn

gynnig talu iawndal i drydydd parti yr effeithiwyd arno gan ei weithredoedd. Gallai'r rheoleiddiwr wedyn addasu lefel y gosb ariannol amrywiadwy i ystyried hyn. Fodd bynnag, gall y rheoleiddiwr wrthod ymgymeriad a gynnigir.

### **Hysbysiad Terfynol**

Ar ôl y cyfnod o 28 o ddiwrnodau a ganiateir ar gyfer cyflwyno sylwadau neu wrthwynebiadau mewn perthynas â'r hysbysiad o fwriad, bydd y rheoleiddiwr yn penderfynu a ddylid gosod y gofynion a nodwyd yn yr hysbysiad o fwriad. Os yw'r rheoleiddiwr yn penderfynu bwrw ymlaen, nodir hynny yn yr hysbysiad terfynol.

Bydd hysbysiad terfynol yn cynnwys ar ba sail y mae'n cael ei gyflwyno, pa gamau y mae angen eu cymryd ac erbyn pryd, hawliau apelio a chanlyniadau peidio â chydymffurfio â'r hysbysiad.

Bydd hysbysiad terfynol ar gyfer cosb ariannol amrywiadwy yn cynnwys ar ba sail y rhoddir y gosb, y swm i'w dalu a sut i wneud taliad, erbyn pryd y mae'n rhaid talu, hawliau apelio a chanlyniadau peidio â chydymffurfio â'r hysbysiad.

### **Cosb am Beidio â Chydymffurfio**

Os nad yw unigolyn yn cydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio neu ymgymeriad trydydd parti, caiff y rheoleiddiwr gyflwyno hysbysiad sy'n gosod cosb ariannol (cosb am beidio â chydymffurfio).

Y rheoleiddiwr fydd yn pennu swm y gosb. Bydd yn ganran o'r costau sy'n deillio o fodloni gweddill gofynion yr hysbysiad cydymffurfio neu ymgymeriad trydydd parti a chaiff fod yn 100%, os yw hynny'n briodol.

Os cydymffurfir â gofynion yr hysbysiad cydymffurfio neu ymgymeriad trydydd parti cyn yr amser a nodir ar gyfer talu'r gosb am beidio â chydymffurfio, ni fyddai angen talu'r gosb.

## **B – Hysbysiadau Stop**

43. Yn ogystal â gallu cyflwyno hysbysiad cydymffurfio yn lle cosb ariannol, rydym yn credu y dylai awdurdodau lleol fod â'r pŵer i gyflwyno hysbysiadau stop. Gellir cyflwyno'r rhain i unigolyn (gan gynnwys cwmni) a gwahardd yr unigolyn hwnnw rhag cynnal gweithgaredd a nodir yn yr hysbysiad nes i gamau penodol gael eu cymryd.

44. Rhaid i'r awdurdod lleol credu'n rhesymol fod y gweithgaredd yn peri, neu fod risg sylweddol y bydd y gweithgaredd yn peri difrod difrifol i:

- iechyd pobl.
- yr amgylchedd (gan gynnwys iechyd anifeiliaid a phlanhigion).
- buddiannau ariannol defnyddwyr.

45. Mae'r sancsiwn hwn yn caniatáu i'r awdurdod lleol hyd yn oed os mai dim ond amau y mae, yn rhesymol, fod yr unigolyn yn cyflawni neu bydd yn cyflawni trosedd drwy barhau â'r gweithgaredd. Mae hon yn lefel is o dystiolaeth na sancsiynau sifil eraill (sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr credu y tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol fod trosedd wedi cael ei chyflawni), ac mae'n rhoi rhagor o hyblygrwydd i ddefnyddio hysbysiad stop yn fesur atal, yn hytrach na sancsiwn adweithiol. Rydym yn credu y bydd y sancsiwn sifil hwn yn galluogi awdurdodau lleol i ystyried effeithiau ehangach y drosedd, er enghraifft rhagor o blastig yn cael eu sbwriela yn yr amgylchedd leol, pan fyddant yn penderfynu a ddylid cymryd camau yn erbyn y troseddwr.
46. Dylid nodi bod y prawf o'r risg o niwed sylweddol yn llym o fwriad, i sicrhau yr ymdrinnir â dim ond yr achosion mwyaf difrifol, gan fod hysbysiadau stop, i bob pwrpas, yn rhoi'r pŵer i awdurdod lleol atal busnes rhag masnachu'n gyfan gwbl.
47. Mae amryw ofynion a phrosesau'n gysylltiedig â defnyddio hysbysiadau stop. Gan fod y rhain yn weithdrefnau penodol sy'n gysylltiedig â sancsiwn sifil penodol, nid ydym yn ceisio barn ar yr agwedd hon ar y rheoliadau. Fodd bynnag, er gwybodaeth yn unig, dyma'r mesurau:

### **Cynnwys**

Isod mae gofynion mewn perthynas â'r hyn y mae'n rhaid i hysbysiad stop ei nodi:

- Y rheswm dros gyflwyno'r hysbysiad.
- Yr hawl i apelio.
- Canlyniadau methu cydymffurfio

### **Apelau**

Mae sawl rheswm dros apelio yn erbyn hysbysiad stop. Maent yn cynnwys y penderfyniad yn cael ei wneud ar sail ffaith anghywir, a bod y penderfyniad yn anghywir yn ôl y gyfraith. Mae rhagor o fanylion ynglŷn ag apelau yn adran berthnasol y ddogfen hon.

### **Tystysgrif Gwblhau**

Rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno 'tystysgrif gwblhau' pan fydd yn fodlon bod yr unigolyn wedi cydymffurfio â'r hysbysiad stop. Mae hyn yn ddatblygiad pwysig, gan ar hyn o bryd all fod problemau wrth gael cadarnhad gan awdurdodau lleol eu bod yn fodlon bod yr unigolyn wedi datrys y broblem neu'r digwyddiad. Gall yr unigolyn ofyn am dystysgrif gwblhau ar unrhyw adeg ar ôl i hysbysiad stop gael ei gyflwyno. Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylid cyflwyno dystysgrif gwblhau neu beidio o fewn 14 diwrnod i'r cais.

### **lawndal**

Byddai angen i'r rheoliadau wneud y canlynol:



- darparu ar gyfer cynllun iawndal i ddigolledu unigolion sydd wedi derbyn hysbysiad stop anghyfreithlon.
- darparu'r hawl i apelio yn erbyn penderfyniad gan reoleiddiwr i beidio â dyfarnu iawndal, neu yn erbyn swm yr iawndal a ddyfarnwyd.

Bydd y sail ar gyfer talu iawndal yn cael ei hamlinellu yn y rheoliadau arfaethedig, ac mae'n debyg y bydd yn ymwneud â sefyllfa lle y cyflwynwyd hysbysiad stop yn ddiangen.

**Cwestiwn 5. A ydych yn cytuno â chynnwys hysbysiadau stop yn ein rheoliadau? Rhowch eich rhesymau.**

**C – Ymgymeriadau Gorfodi**

48. Pan fydd trosedd wedi cael ei chyflawni, rydym yn cynnig mai un opsiwn fyddai i'r troseddwr unioni'r sefyllfa – yn yr achos hwn atal rhag cyflenwi neu gynnig cyflenwi'r cynnyrch plastig gwaharddedig, gan wybod y bydd methu gwneud hynny'n arwain at gael ei erlyn. Rhaid i'r rheoleiddiwr dderbyn yr addewid er mwyn iddo gael effaith gyfreithiol. Gelwir y math hwn o addewid yn ymgymeriad.
49. Mae ymgymeriad gorfodi yn gytundeb gwirfoddol sy'n rhwymo mewn cyfraith a gynigir gan unigolyn, partneriaeth neu gwmni i'r rheoleiddiwr, pan fydd gan y rheoleiddiwr sail resymol dros gredu bod trosedd benodol (gan gynnwys trosedd amgylcheddol) wedi cael ei chyflawni. Er nad yw'n sancsiwn fel y cyfryw, fel arfer cyfeirir at ymgymeriadau gorfodi fel sancsiynau. Ni chaiff rheoleiddiwr ei gwneud yn ofynnol cytuno i ymgymeriad gorfodi.
50. Gall rheoleiddiwr ddewis derbyn ymgymeriad gorfodi yn yr achosion canlynol:
- ni fyddai erlyn er budd y cyhoedd;
  - mae'r cynnig ei hun yn mynd i'r afael ac achos ac effaith y drosedd.
51. Yn achos ymgymeriad gorfodi, gall y troseddwr gytuno i gymryd camau i sicrhau nad yw trosedd yn digwydd neu'n ailddigwydd. Gallai hyn gynnwys talu swm o arian neu gymryd camau a fydd yn sicrhau budd i'r amgylchedd i unioni'r niwed a achoswyd gan y drosedd.
52. Nid yw unrhyw sancsiwn sifil arall yn cael ei roi, ac nid yw'r troseddwr yn cael ei erlyn, os yw'r rheoleiddiwr yn derbyn yr ymgymeriad gorfodi a bod yr ymgymeriad yn cael ei gwblhau.
53. O dan y dull hwn, pan fydd yr awdurdod lleol yn fodlon bod y troseddwr wedi cydymffurfio â'r ymgymeriad gorfodi, bydd yn cyhoeddi tystysgrif gwblhau, ac ni fydd unrhyw gamau eraill yn cael eu cymryd.

54. Fodd bynnag, os nad yw'r unigolyn yn cydymffurfio â'r ymgymeriad, yna gall yr awdurdod lleol estyn yr amser ar gyfer cydymffurfio ag ymgymeriad gorfodi. Yr opsiynau eraill yw cyflwyno cosb ariannol amrywiadwy, cosb am beidio â chydymffurfio neu ddod ag achos troseddol.
55. Yn wahanol i'r sancsiynau sifil eraill o dan RESA, nid oes hawl apelio, am fod ymgymeriad yn cael ei gynnig gan yr unigolyn, yn hytrach na'r ymgymeriad yn cael ei osod gan y rheoleiddiwr. Fodd bynnag, os yw ein rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr gyflwyno tystysgrif i'r unigolyn pan fydd wedi cwblhau'r ymgymeriad gorfodi, bydd hawl apelio os yw'r rheoleiddiwr yn gwrthod gwneud hynny.
56. Os bydd yr opsiwn hwn yn cael ei fabwysiadu, byddai'r rheoliadau arfaethedig yn amlinellu'r weithdrefn ar gyfer gwneud ymgymeriad a'i gyhoeddi, ac i'r rheoleiddiwr ardystio bod yr unigolyn wedi cydymffurfio â'r ymgymeriad.
57. Rydym yn credu y bydd cynnwys ymgymeriadau gorfodi yn ein rheoliadau arfaethedig yn galluogi swyddogion gorfodi i weithio gydag unrhyw droseddwr sydd am fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio mewn modd rhagweithiol. Ym aml mae'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio pan fydd unigolyn yn sylweddoli ei fod wedi cyflwyno trosedd ac yn tynnu sylw'r rheoleiddiwr ato, neu pan fydd rheoleiddiwr fel arall yn amau bod trosedd berthnasol wedi cael ei chyflawni. Mae'r darparu ar gyfer camau cymesur i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio ac yn caniatáu i'r unigolyn wneud cysylltiad rhwng y drosedd a'i heffaith. Er enghraifft, efallai y bydd busnes sy'n gwerthu cynnyrch gwaharddedig am wneud cyfraniad ariannol at grŵp cymunedol lleol sy'n clirio sbwriel yn yr ardal.

**Cwestiwn 6. A ydych yn cytuno â chynnwys ymgymeriadau gorfodi yn ein rheoliadau?  
Rhowch eich rhesymau.**

### Achos Troseddol

58. Bwriad y gyfundrefn sancsiynau sifil a amlinellir uchod yw annog pobl i gydymffurfio â'r gwaharddiadau ar blastigau untro. Os yw unigolyn yn methu cydymffurfio â hysbysiad terfynol, hysbysiad stop neu ymgymeriad gorfodi, gellir cyflwyno achos troseddol a fyddai, os yw'n llwyddiannus, yn arwain at ddirwy ar euogfarn ddiannod.

### **Gweinyddu ac Apeliadau**

59. Er mwyn ategu'r broses o ddefnyddio sancsiynau sifil, bydd ein rheoliadau hefyd yn cynnwys yr elfennau canlynol.

### Hysbysiad Adennill Costau Gorfodi

60. O dan y rheoliadau bydd awdurdod lleol yn gallu cyflwyno hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson dalu costau a ysgwyddwyd fel rhan o ymchwiliad neu gostau

gweinyddol. Gallai'r costau hynny gynnwys taliadau i arbenigwr am gyngor (gan gynnwys cyngor cyfreithiol).

61. Bydd yr hysbysiad adennill costau gorfodi yn pennu ar ba sail y cyflwynir yr hysbysiad, y swm i'w dalu, sut mae'n rhaid talu ac erbyn pryd, hawliau apelio a chanlyniadau peidio â chydymffurfio â'r hysbysiad.

### Apelau

62. Er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn orfodi yn cael ei defnyddio mewn modd teg ac yn unol ag egwyddorion gorfodi da, a bod yr awdurdod lleol yn atebol am ei benderfyniadau, bydd trefn apelio yn cael ei sefydlu fel rhan o'n rheoliadau.

63. Cynigir bod apelau'n cael eu gwneud i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (FTT). Siambr Gyffredinol Rheoleiddio'r FTT yw'r un fwyaf priodol gan ei bod yn ymdrin ag awdurdodaeth ym maes yr amgylchedd.

64. Os yw unigolyn yn anghytuno â chynnwys hysbysiad o fwriad, bydd ganddo 28 o ddiwrnodau i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau i'r rheoleiddiwr.

65. Os cyflwynir hysbysiad terfynol neu gosb ariannol ar ôl yr hysbysiad o fwriad, bydd yn rhaid cyflwyno unrhyw apêl i'r FTT yn ysgrifenedig.

66. Byddai apelau i'r FTT yn ymwneud â derbyn:

- Hysbysiad terfynol (hysbysiad cydymffurfio neu gosb ariannol amrywiadwy)
- Hysbysiad stop;
- Cosb am beidio â chydymffurfio

67. Byddai'r mecanwaith apelio hefyd yn caniatáu i apelau gael eu gwneud ar y sail a ganlyn:

- bod tystysgrif gwblhau heb ei chyflwyno mewn perthynas â hysbysiadau stop;
- bod tystysgrifau heb eu cyflwyno mewn perthynas ag ymgymeriad gorfodi;
- penderfyniad ynghylch iawndal; neu
- adennill costau gorfodi.

68. Ein bwriad yw i apelau ddilyn rheolau a gweithdrefnau Siambr Gyffredinol Rheoleiddio'r FTT, sydd ar gael ar [wefan](#) Llywodraeth y DU. Mae rheolau a gweithdrefnau'r FTT yn rhoi cyfnod o 28 o ddiwrnodau o'r dyddiad y daw'r sancsiwn sifil i law ar gyfer apelio yn ei erbyn. Y rheoleiddiwr, fel arfer, sy'n ysgwyddo'r baich profi mewn gwrandawriad – bydd yn rhaid iddo brofi i'r panel fod y penderfyniad a wnaeth yn un rhesymol.

69. Bydd y sail dros apelio'n cynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- penderfyniad ar sail ffaith anghywir neu sy'n groes i'r gyfraith;
- penderfyniad sy'n afresymol neu'n annheg;
- bod swm y gosb yn afresymol;
- bod y camau a nodwyd yn yr hysbysiad yn afresymol neu'n annheg;
- nid yw'r person wedi cyflawni trosedd.

70. Caiff yr FFT:

- tynnu'r gofyniad neu'r hysbysiad yn ôl;
- cadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad;
- cymryd camau fel y rhai y gallai'r rheoleiddiwr eu cymryd mewn perthynas â'r weithred neu'r hepgoriad a arweiniodd at y gofyniad neu'r hysbysiad;
- rhoi'r penderfyniad ynghylch a ddylid cadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad, neu unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad hwnnw, yn ôl i'r rheoleiddiwr;
- dyfarnu costau.

**Cwestiwn 7. A ydych yn cytuno â'n cynigion ar gyfer y mecanwaith apelio? Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 8. A ydych yn cytuno bod y dull gorfodi cyffredinol hwn yn rhesymol ac yn gymesur? Rhowch eich rhesymau.**

## Costau ac Effeithiau

71. Yn rhan o'n proses datblygu polisiau bydd yn ofynnol inni asesu costau cyflwyno'r rheoliadau hyn ar fusnesau ac awdurdodau lleol (sef y rhai fydd yn rheoleiddio'r gwaharddiadau).
72. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil, sydd ar gael [yma](#), yn amlinellu cyfanswm cost rhoi'r Bil ar waith. Er mwyn casglu gwybodaeth am gostau a manteision y Bil, cynhaliwyd trafodaethau â sampl o randdeiliaid yn ystod 2020 fel rhan o'r brif ymchwil a dadansoddiadau a gafodd eu cynnal i gefnogi'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Mae'r pwyntiau perthnasol isod.
73. Rydym o'r farn y bydd nifer o ffactorau'n ysgogi busnesau i gydymffurfio â'r gyfraith newydd, ac o ganlyniad bydd yr angen i ddefnyddio offerynnau gorfodi fel sancsiynau sifil i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio yn gyfyngedig. Er enghraifft, rydym yn gwybod bod y rhan fwyaf o ffyn cotwm a werthir eisoes â ffyn nad ydynt yn blastig, ac mae llawer o sefydliadau arlwygo eisoes wedi newid i wellt papur neu ddeunyddiau eraill. Mae rhai gweithgynhyrchwyr wedi datblygu opsiynau diblastig eraill i wellt, sydd ynghlwm wrth gartonnau.
74. Yn bennaf disgwylir i'r gwaharddiadau wthio pobl yn gyflym tuag at ddefnyddio cynhyrchion diblastig, ac o ganlyniad lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd a achosir gan yr eitemau gwaharddedig yn cael eu sbwriela. Rydym hefyd yn tybio y bydd y gwaharddiadau'n effeithio ar gyfradd twf y farchnad, h.y. cyfanswm y cynhyrchion plastig untro a ddefnyddir ym mlynnyddoedd y dyfodol. Tybir bod y marchnadoedd ar gyfer gwellt, ffyn cotwm, troellwyr, platiau, cytleri a ffyn balwnau plastig untro yn lleihau 1% y flwyddyn, gan fod ymwybyddiaeth y cyhoedd o effaith y cynhyrchion hyn eisoes yn weddol uchel. Mewn llawer o farchnadoedd nid yw defnyddwyr yn credu bod angen y cynhyrchion hyn.
75. Yn fwy ac yn fwy mae defnyddwyr a busnesau'n ceisio lleihau'r defnydd o gynhyrchion plastig untro, neu ddod o hyd i opsiynau y gellir eu hailddefnyddio – er gwaethaf hwylustod canfyddedig eitemau plastig untro. Mewn achosion eraill mae eu defnyddio yn fater o arfer neu'n anwirfoddol, fel derbyn gwelltyn plastig bach gyda diod alcoholig gymysg, ac mae newidiadau diwylliannol ac ystyriaethau amgylcheddol yn lleihau eu defnydd yn fwy ac yn fwy. O dan waharddiad, tybir y bydd y defnydd hwn yn lleihau 2% y flwyddyn, o ganlyniad i sylw ychwanegol ymhlith y cyhoedd ac yn y cyfryngau.
76. Bu cynnydd cysylltiedig yn nifer y defnyddwyr sy'n defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio. Yn ystod y trafodaethau â rhanddeiliaid am y Bil, dywedodd un manwerthwr mawr fod y mathau hyn o gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio y maent wedi eu gwerthu wedi cynyddu 96% ers y flwyddyn flaenorol. Gwnaeth y twf a'r galw am y cynhyrchion hyn ysgogi datblygu cynllun mawr mewn perthynas â chynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio yn eu siopau.
77. Hefyd, mewn perthynas â'r Bil, dywedodd rhanddeiliaid efallai y byddai'r gwaharddiad yn cael effaith anghymesur ar fusnesau bach, gan fod y rhain yn gweithredu mewn marchnad cystadleuol ac yn ymwybodol iawn o brisiau. Gwnaethant hefyd nodi yn aml nad oes gan fusnesau o'r fath ddigon o le ar gyfer

cyfleusterau golchi i'w cefnogi i ddefnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio. Ychwanegodd rhanddeiliad arall y byddai'r effaith ar y trydydd sector (e.e. grwpiau cymunedol, eglwysi, sgowtiaid ac ati) yn anghymesur hefyd, gan fod eu hadnoddau'n gyfyngedig, ac yn aml mae'n rhaid iddynt ddewis yr opsiwn rhataf. Er gwaethaf hyn, at ei gilydd roedd rhanddeiliaid yn credu y byddai'r effaith gyffredinol yn isel, oherwydd bod y gwahaniaethau rhwng plastig ac opsiynau diblastig, fesul uned, yn fach, ac felly roeddent o blaid y gwaharddiadau.

78. Fodd bynnag, yn ystod trafodaethau â rhanddeiliaid am y Bil, dadleuodd rhai rhanddeiliaid fod canlyniadau negyddol y Bil yn fwy cynnil. Er enghraifft, dywedodd llawer o randdeiliaid y byddai dibynnu'n fwy ar gynhyrchion ffeibr yn cynyddu faint o bapur a ddefnyddir ac yn arwain at datgoedwigo. Mae'n bosibl felly y bydd rhai busnesau'n gwneud penderfyniad bwriadol i beidio â chydymffurfio â'r gyfraith newydd.
79. Rydym yn tybio y bydd sefydlu cyfundrefn sancsiynau sifil i gefnogi'r gwaharddiadau'n arwain at rai costau ychwanegol ar gyfer timau gorfodi awdurdodau lleol (a fydd yn cynnwys swyddogion safonau masnach, iechyd yr amgylchedd a thrwyddedu).
80. I gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Bil, cafodd ymchwil ei chomisiynau i helpu i nodi costau gorfodi (nid oedd yr ymchwil yn gwahaniaethu rhwng sancsiynau sifil a sancsiynau troseddol). Roedd yr ymchwil hon yn cymryd costau untro o £100,000 i gyflwyno'r gwaharddiadau yn ganiataol, yn y flwyddyn gyntaf, a chostau parhaus blynyddol o £100,000 ar gyfer rheoli (Llywodraeth Cymru) a gorfodi (awdurdodau lleol) o ail flwyddyn y gwaharddiad. Mae'r tybiaethau'n seiliedig yn rhannol ar faint disgwylidig marchnadoedd a'r rhanddeiliaid yr effeithir arnynt, a defnyddio ffordd gost-ffeithiol, gyffyrddiad ysgafn o orfodi, yn debyg i'r dull a ddefnyddir ar gyfer rheoliadau diogelu'r amgylchedd eraill.
81. Mae Adran Safonau Masnach (neu adran gyfatebol) awdurdodau lleol eisoes yn gyfrifol am orfodi dros 100 darn o ddeddfwriaeth sylfaenol a llawer mwy o reoliadau a gorchmynion. Mae'n bosibl y bydd costau cyfreithiol ychwanegol i awdurdodau lleol pan fydd achosion o ddiffyg cydymffurfio. Gall busnesau osgoi costau cyfreithiol drwy sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gwaharddiadau.
82. Yn aml mae awdurdodau lleol yn ymateb i wybodaeth oddi wrth asiantaethau eraill, busnesau neu gwynion gan y cyhoedd – hynny yw, mae eu gweithgareddau'n aml yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chwynion â wnaed a gwybodaeth a dderbyniwyd. Pan fydd achos o ddiffyg cydymffurfio wedi cael ei nodi, byddem yn disgwyl i'r masnachwr hwnnw dderbyn cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio. Fel y nodwyd eisoes, dim ond pan fydd cyngor a gwybodaeth yn cael eu hanwybyddu, neu pan fydd gamgymeriadau parhaus yn cael eu gwneud, y byddem yn disgwyl gweld camau gorfodi'n cael eu defnyddio. Fodd bynnag, bydd costau'n gysylltiedig ag archwilio safle a rhoi cyngor.
83. Bydd angen i awdurdodau lleol ddatblygu canllawiau ar orfodi ar gyfer eu swyddogion gorfodi, darparu hyfforddiant staff a datblygu mathau addas o hysbysiad gorfodi.

84. Bydd amcangyfrifon mwy manwl o'r costau'n cael eu darparu pan fydd y rheoliadau drafft yn cael eu cyhoeddi.
85. Mae'n bosibl y bydd costau yn y dyfodol pan fydd gwaharddiadau newydd yn cael eu cyflwyno o dan y darpariaethau yn y Bil i ychwanegu cynhyrchion eraill at y rhestr. Byddai'r rhain yn cael eu hamcangyfrif ar y pryd.

**Cwestiwn 9. A oes gennych unrhyw dystiolaeth y gallwn ei defnyddio i'n helpu i asesu costau gweinyddu a gorfodi ein sanctiynau sifil arfaethedig?**

## **Safonau'r Gymraeg**

86. Nid ydym am i'r rheoliadau arfaethedig gael effaith negyddol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, na thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
87. Hoffem wybod eich barn ynghylch yr effeithiau y byddai defnyddio sancsiynau sifil i orfodi cydymffurfedd â gofynion y Bil yn eu cael ar y Gymraeg; yn benodol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
88. Rydym am i'r polisi arfaethedig ar gyfer defnyddio sancsiynau sifil i orfodi cydymffurfedd â gofynion y Bil gael dylanwad cadarnhaol, neu fwy o ddylanwad cadarnhaol, ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg; ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; ac i beidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 10. A ydych yn credu y gallai'r gyfundrefn orfodi gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg?  
Rhowch eich rhesymau.**



## **Y camau nesaf**

89. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion ac yn eu hystyried wrth wneud y rheoliadau (y deddfwriaeth).
90. Pan fydd yr holl ymatebion wedi cael hystyried, caiff Ymateb y Llywodraeth ei gyhoeddi ar ein gwefan.
91. Ein bwriad yw i'r rheoliadau ddod i rym ar 9 Hydref 2023.
92. Gall y dyddiad hwn newid yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad a'r prosesau deddfwriaethol gofynnol.

## **Atodiad 1 Ffurflen ymateb i'r Ymgynghoriad**

**Eich enw:**

**Sefydliad (os yw'n berthnasol):**

**Eich cyfeiriad e-bost/rhif ffôn:**

**Eich cyfeiriad:**

**Cwestiwn 1. A ydych yn cytuno â defnyddio hysbysiadau cydymffurfio? Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 2. A yw'r cynnig i ganiatáu i reoleiddwyr roi cosbau ariannol amrywiadwy yn rhesymol? Rhowch eich Rhesymau ac, os yw hynny'n briodol, awgrymu dull amgen. Cyfeiriwch at gyfundrefnau cymharol os yw hynny'n briodol.**

**Cwestiwn 3. A ydych yn cytuno na ddylid pennu terfyn uchaf ar gyfer cosbau ariannol amrywiadwy? Rhowch eich rhesymau (ac awgrymu terfyn uchaf os ydych yn credu bod hynny'n briodol).**

**Cwestiwn 4. A ydych yn cytuno â'n penderfyniad i beidio â chynnwys cosbau ariannol penodedig yn ein rheoliadau? Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 5. A ydych yn cytuno â chynnwys hysbysiadau stop yn ein rheoliadau? Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 6. A ydych yn cytuno â chynnwys ymgymeriadau gorfodi yn ein rheoliadau? Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 7. A ydych yn cytuno â'n cynigion ar gyfer y mecanwaith apelio? Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 8. A ydych yn cytuno bod y dull gorfodi cyffredinol hwn yn rhesymol ac yn gymesur? Rhowch eich rhesymau.**

**Cwestiwn 9. A oes gennych unrhyw dystiolaeth y gallwn ei defnyddio i'n helpu i asesu costau gweinyddu a gorfodi ein sancsiynau sifil arfaethedig?**

**Cwestiwn 10. A ydych yn credu y gallai'r gyfundrefn orfodi gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg? Rhowch eich rhesymau.**

## Unrhyw sylwadau eraill

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech godi unrhyw faterion eraill nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad.

**Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n ddiennw, nodwch hynny yma:  
Byddai/Na fyddai**

Os hoffech gael copi papur o'r ddogfen ymgynghori a/neu y ffurflen ymateb, e-bostiwch [bilcynhyrchionplastiguntro@llyw.cymru](mailto:bilcynhyrchionplastiguntro@llyw.cymru) neu ysgrifennwch at:

Is-adran Diogelu'r Amgylchedd  
Llywodraeth Cymru  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Anfonwch eich ymateb at [bilcynhyrchionplastiguntro@llyw.cymru](mailto:bilcynhyrchionplastiguntro@llyw.cymru) neu'r cyfeiriad uchod erbyn **9 Mehefin 2023**.